



Severn Estuary
Commission
Comisiwn
Aber Afon Hafren



Western
Gateway

Porth y
Gorllewin

Comisiwn Aber Afon Hafren

Argymhellion

Mawrth 2025

“

“Rydym eisiau gwneud Cymru’n ganolbwynt byd-eang ar gyfer technolegau llanw sy’n dod i’r amlwg. Mae Aber Afon Hafren wedi cael ei ystyried ers amser fel ffynhonnell ynni gyda photensial aruthrol, gydag un o’r amrediadau llanw uchaf yn y byd. Rwy’n croesawu gwaith Comisiwn Aber Afon Hafren i ddeall ei botensial yn well ac rwy’n edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth y DU a Phorth y Gorllewin i sicrhau y gallwn fanteisio ar ei botensial gan ddiogelu’r ased unigryw hwn hefyd.”



Rebecca Evans AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio



“

“Ar ôl blynyddoedd lawer o ddadlau, gwyddom bellach fod y potensial enfawr o ynni llanw yn yr Hafren can a chwarae rhan allweddol yn ein cyflenwad ynni. ydw i yn ddiolchgar i'r comisiwn am eu gwaith i archwilio hyn cyfle enfawr i'r DU. Lansiwyd gan y 28 lleol awdurdodau sy'n ffurfio Porth y Gorllewin, ydym ni barod i weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gweld yr argymhellion hyn yn cael eu gwireddu.”



Sarah Williams-Gardener
Cadeirydd Porth y Gorllewin






Comisiynwyr



Sue Bartlett-Reed, Sylfaenydd a Chadeirydd, Cyngor Ynni Morol y DU ac Is-gadeirydd, Global Underwater Hub



Peter Davies CBE, cyn Is-Gadeirydd Comisiwn Datblygu Cynaliadwy y DU, Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy a Chadeirydd Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd



Dr Madeleine Havard, aelod Cenedlaethol Arfordir Penfro Awdurdod y Parc a Chadeirydd Cadwraeth Forol Sgomer Pwyllgor Ymgynghorol y Parth.



Chris Mills, Llywydd a Cadeirydd y Sefydliad Pysgodfeydd Rheolaeth a Chadeirydd Afonydd Cymru



Dr Nigel Costley, gynt Ysgrifennydd Rhanbarth y De Cyngres Undebwyr Llafur y Gorllewin



Ian Simm, Sylfaenydd a Phennaeth Gweithredwr Impax Asset Grŵp Rheoli ccc

Rhagair y Cadeirydd

Mae galw cynyddol y Deyrnas Unedig am drydan, y rhyfel yn Wcráin ac ansefydlogrwydd geowleidyddol eang wedi canolbwyntio meddyliau pawb ar yr angen am gynhyrchu ynni lleol. Mae cydnabyddiaeth gyffredinol hefyd bod ein hinsawdd yn newid mewn modd peryglus. Hyd yma, nid yw'r her gyfochrog o ran bioamrywiaeth wedi'i chydabod i'r un graddau.

Rydym yn wynebu penbleth – rydym yn gwybod bod angen llawer mwy o drydan arnom i gyrraedd ein targedau datgarboneiddio, ac rydym yn gwybod y dylai fod yn lleol a charbon isel. Yn yr un modd, rydym yn gwybod bod gan bob prosiect effaith amgylcheddol. Cydbwysu effaith amgylcheddol leol prosiect gyda'i fudd amgylcheddol ac economaidd ehangach yw'r cyfaddawd allweddol i'w wneud wrth ystyried



ynni adnewyddadwy. Sefydlwyd Comisiwn Aber Afon Hafren i ystyried dichonoldeb cynhyrchu trydan yn yr Aber. Yr un penbleth hwnnw oedd thema hanfodol ein trafodaethau.

Mae digon o hanes ynghlwm wrth y pwnc hwn. Rydym yn ddiolchgar i'r rhai sydd wedi rhoi cyd-destun hanesyddol ac arbenigedd technegol ac, wrth gwrs, i'r arbenigwyr presennol sydd wedi ein helpu i asesu posibiliadau newydd. Rydym hefyd wedi elwa'n fawr o gymorth a chydweithrediad Ystâd y Goron, Partneriaeth Aber Afon Hafren ac, wrth gwrs, y nifer fawr o randdeiliaid yr ydym wedi ymgynghori â nhw. Mae'r Comisiynwyr wedi mynd i'r afael â'r gwaith gyda meddyliau agored. Cafwyd digon o drafodaeth onest a thensiwn adeiladol. Diolch i bawb am eu gwaith caled.

Andrew Garrad CBE FREng

Cadeirydd Comisiwn Aber Afon Hafren

Partneriaeth Porth y Gorllewin

Mae'r bartneriaeth yn dwyn ynghyd 28 o awdurdodau lleol ar ddwy ochr yr aber, un Awdurdod Cyfun Maerol yn Lloegr, a dau Gydbwyllgor Corfforaethol yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae'n cynrychioli dros 4.8 miliwn o bobl. Mae'n bodoli i gynhyrchu a chefnogi twf economaidd, gan ddefnyddio cryfderau cyffredin i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyrraedd sero net, creu cyfleoedd i gymunedau, ac, yn y broses, adeiladu dyfodol cynaliadwy.



Cyflwyniad

Yn ôl Gweithredwr Cenedlaethol y System Ynni (NESO) a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, mae disgwyl i alw trydan y Deyrnas Unedig fwy na dyblu erbyn 2050. Mae ateb y galw hwnnw'n hanfodol i uchelgeisiau twf Llywodraeth y DU i hybu busnes a diwydiant. Fel y mae digwyddiadau byd-eang wedi dangos, er mwyn sicrhau diogelwch ynni ein cenhedloedd, rhaid i'r cynhyrchu fod yn ddomestig. Mae angen buddsoddiad ar unwaith ar y Deyrnas Unedig mewn cynlluniau ynni carbon isel i gyrraedd ei tharged o Sero Net erbyn 2050.

Mae ynni amrediad llanw yn ffynhonnell ynni glân a rhagweladwy ac, yn Aber Afon Hafren, mae gan y Deyrnas Unedig un o'r amrediadau llanw uchaf yn y byd. Mae prosiect yn yr Aber yn cynnig cyfle prin i'r Deyrnas Unedig arddangos ei gallu i fanteisio ar yr adnodd gwerthfawr hwn.

Gan gydnabod y potensial hwn, lansiodd Partneriaeth Porth y Gorllewin Gomisiwn Aber Afon Hafren i archwilio'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer harneisio ynni amrediad llanw'r Aber. Gofynnwyd i'r Comisiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac arbenigwyr i benderfynu a yw cynhyrchu trydan cynaliadwy yn Aber Afon Hafren yn ddichonol.

Mae adroddiad cynhwysfawr ar gael ar-lein. Mae'r adroddiad crynodeb hwn yn nodi ymagwedd, trafodaethau, casgliadau ac argymhellion y Comisiwn.

Ochr yn ochr â'r Comisiwn, mae Partneriaeth Porth y Gorllewin hefyd yn gweithio'n agos gyda Her Môr-lynnoedd Llanw Llywodraeth Cymru i alinio ymchwil, cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ynni amrediad llanw, a chynorthwyo penderfyniadau yn y dyfodol yn well.



Trosolwg

Ar ôl blwyddyn o ymgysylltu â mwy na 500 o unigolion o dros 200 o sefydliadau lleol a chenedlaethol, mae Comisiwn Aber Afon Hafren wedi dod i'r casgliad bod datblygu ynni amrediad llanw yn Aber Afon Hafren yn ymarferol. Byddai prosiectau amrediad llanw yn cynhyrchu ynni carbon isel rhagweladwy, yn annibynnol ar y tywydd, yn helpu i gwrdd â'r cynnydd sylweddol yn y galw am drydan yn y Deyrnas Unedig, ac yn cyfrannu at sefydlogrwydd y grid.

Mae gan Aber Afon Hafren bwysigrwydd amgylcheddol rhyngwladol ac arwyddocâd treftadaeth ac mae'n rhaid ei warchod. Mae newid hinsawdd eisoes yn effeithio ar yr Aber, gyda lefelau'r môr yn codi a thymheredd y dŵr yn newid ei ecoleg. Mae bylchau sylweddol mewn data amgylcheddol ac mae mynd i'r afael â'r rhain yn hanfodol er mwyn gallu ystyried datblygiad yn briodol yn yr Aber.

Gan ystyried materion masnachol, heriau deddfwriaethol, a safbwyntiau rhanddeiliaid, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad na ddylid mynd ar drywydd datblygu morglawdd mawr ar hyn o bryd.

Mae'r Comisiwn yn argymhell bod Llywodraethau'r DU a Chymru yn rhoi cymorth polisi ar gyfer ynni amrediad llanw i sicrhau hyder buddsoddwyr y sector preifat ac ymgysylltiad y sector cyhoeddus mewn ymchwil a monitro amgylcheddol. Dylai'r cymorth polisi hwn gael ei ategu gan gynllun gofodol Aber cyfan dan arweiniad lleol i reoli'r Aber yn ei gyfanrwydd.

Dylid datblygu morlyn masnachol hyfyw – Prosiect Arddangos Masnachol. Dylai ddefnyddio'r dull ariannu Sylfaen Asedau Rheoleiddiedig a chael ei ddatblygu drwy gyfrwng cyflawni sector cyhoeddus yn bennaf. Hwn fyddai morlyn amrediad llanw cyntaf y byd, byddai'n creu twf economaidd, ac yn cyflawni gwell dealltwriaeth o ynni amrediad llanw. Byddai angen monitro ei effaith amgylcheddol yn ofalus, a dylid defnyddio'r wybodaeth honno i benderfynu a ddylai datblygiadau ddigwydd yn y dyfodol. Dylid gweithredu rhaglen monitro amgylcheddol gyfochrog i lenwi bylchau ehangach mewn data.

Mae'r Comisiwn yn annog Partneriaeth Porth y Gorllewin i weithio gyda Llywodraethau'r DU a Chymru i weithredu ar ei argymhellion.





Prif Ganfyddiadau

Cynorthwyo nodau Sero Net a diogelwch ynni y Deyrnas Unedig

Ochr yn ochr â chyflawni Pŵer Glân 2030, mae'r Llywodraeth newydd wedi gosod y ddarpariaeth o ynni diogel, cost isel, carbon isel fel blaenoriaeth i gwrdd â'r cynnydd yn y galw am drydan ar ôl 2030. Mae'r nod hwn yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Sero Net Llywodraeth Cymru.

Mae Senarios Ynni'r Dyfodol NESO ar gyfer 2024 i gyd yn nodi y bydd angen 3-5 GW o ynni amrediad llanw erbyn 2050. Bob blwyddyn, mae NESO yn diweddarau senarios ynni'r dyfodol. Mae pob senario yn cynnwys prosiectau ynni amrediad llanw yn ystod degawd 2040 i 2050. Mae NESO yn gweithio ar ei Gynllun Ynni Gofodol Strategol cyntaf, cynllun tymor agosach, a fydd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Mae'r Comisiwn yn disgwyl i ynni amrediad llanw gael ei gynnwys mewn diweddariadau yn y dyfodol wrth i wybodaeth fanylach ddod ar gael ynghylch amseru a datblygu prosiectau.

Aber Hafren, gyda'i hamrediad llanw 14m, yw'r adnodd ynni llanw mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Ar ei ben ei hun, gallai gyflenwi hyd at 7% o drydan presennol y wlad, gan ei wneud yn rhan sylweddol o'r ateb i anghenion ynni'r Deyrnas Unedig. O ystyried amseroedd hir y broses cynllunio a datblygu, os yw am gyfrannu at gyflawni sero net erbyn 2050, yna dylai'r datblygiad ddechrau cyn gynted â phosibl.

Mae defnyddio'r adnodd hwn yn cyd-fynd â strategaeth y Llywodraeth i ddod yn "archbŵer ynni glân", gan sicrhau bod ynni dibynadwy a brodorol ar gael sy'n lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil ac ynni wedi'i fewnforio. Fel rhan o gymysgedd ynni adnewyddadwy amrywiol,

mae ynni amrediad llanw yn ategu ynni gwynt y môr, solar, a niwclear, gan wella sefydlogrwydd y grid a diogelwch ynni.

Mae technoleg yn aeddfed ac yn barod i'w defnyddio

Mae technoleg amrediad llanw wedi ei deall yn dda. Mae cynlluniau ar waith mewn mannau eraill yn y byd, er fel morgloddiau yn hytrach na morlynnoedd, ond mae'r egwyddor yr un fath. Gellir defnyddio'r dechnoleg heddiw heb fod angen mwy o ddatblygiadau. Fodd bynnag, yn y Deyrnas Unedig, nid yw erioed wedi cael cefnogaeth ffurfiol gan y llywodraeth ac, felly, mae wedi methu â denu buddsoddiad. Nid yw'r rhwystrau masnachol yn ymwneud â pheirianeg; maent yn gysylltiedig â'r maint anarferol a'r amser adeiladu hir.

Ystyriaethau amgylcheddol ac addasu i'r hinsawdd

Mae'r Aber wedi'i warchod yn fawr ac yn cael ei gydnabod fel gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae'n cynnwys safle Ramsar dynodedig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae rhannau o'r Aber wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac mae Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol hefyd. Mae newid hinsawdd eisoes yn effeithio ar yr Aber, gyda lefelau'r môr yn codi a chynefinoedd yn newid y cydbwysedd ecolegol. Er gwaethaf llawer o astudio, mae bylchau sylweddol mewn data amgylcheddol, ac mae gwaith blaenorol wedi amlygu'r angen am fonitro systematig i gefnogi prosesau gwneud

penderfyniadau gwybodus. Mae mynd i'r afael â'r bylchau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiad yn cydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol a bod ei effaith yn cael ei lliniaru'n effeithiol.

Nododd y Comisiynwyr bryderon rhanddeiliaid amgylcheddol a oedd yn gwrthwynebu morglawdd ond a oedd yn gweld gwerth mewn prosiect morlyn peilot ar raddfa lai.

Cyfleoedd twf economaidd a diwydiannol

Mae'r diwydiant ynni glân, sy'n cynnwys ynni'r llanw a gwynt arnofiol ar y môr, yn un o wyth sector sy'n gyrru twf a nodwyd yn y strategaeth ddiwydiannol genedlaethol newydd. Ei nod datganedig yw canolbwyntio ar y sectorau sy'n gyrru twf gyda'r potensial uchaf a chreu swyddi o ansawdd uchel ledled y Deyrnas Unedig. Gall buddsoddi mewn prosiectau amrediad llanw helpu i gyflawni'r nod hwnnw.

Asesiad y Comisiwn yw bod gan hyd yn oed morlyn bach i ganolog y potensial i greu tua 40,000 o flynyddoedd o swyddi a Gwerth Ychwanegol Crynswth o £2 biliwn yn ystod y cyfnod adeiladu. Byddai'r budd hwn yn cynyddu'n sylweddol pe bai'n cael ei benderfynu bod gwerth amgylcheddol a masnachol mewn bwrw ymlaen â rhaglen ehangach.

Mae gan ranbarth Aber Afon Hafren rywfaint o gyfle i ddatblygu cadwyni cyflenwi newydd. Mae ganddo seilwaith ar gyfer rhaglen o'r fath. Mae lle a chysylltedd grid ar ddwy ochr yr Aber, ac mae posibilrwydd y bydd llafur adeiladu medrus ar gael ar ôl cwblhau Hinkley Point C. Mae cyfle hefyd i brosiectau ynni amrediad llanw hwyluso rhywfaint o adfywiad yn yr ardaloedd mwy difreintiedig yn Ne Cymru.





Morglawdd Llanw La Rance, Ffrainc

Mae'r Aber yn gartref i lawer o weithgarwch masnachol gyda phorthladdoedd mawr ar ei lannau y gall prosiect amrediad llanw amharu arnynt. Roedd y porthladdoedd yn unfrydol yn eu gwrthwynebiad i forglawdd. Roedd eu hymatebion i forlynnoedd yn gymysg.

Oherwydd effeithiau amgylcheddol, rhwystrau deddfwriaethol a'r effeithiau ar borthladdoedd a gweithgareddau masnachol eraill, daeth y Comisiwn i'r casgliad na ddylid mynd ar drywydd datblygu morglawdd mawr yn Aber Afon Hafren ar hyn o bryd. Byddai prosiect morlyn peilot ar raddfa lai yn galluogi profiad peirianyddol a gwaith monitro effeithiau amgylcheddol yn y byd go iawn. Felly, mae datblygu morlyn llanw yn cynnig dewis amgen cadarnhaol yn lle morglawdd.

fe'i cynigir ar gyfer Sizewell C, gan ddangos ei botensial i ddenu buddsoddiad tymor hir mewn datblygiadau cyfalaf-ddwys. Mae'r Llywodraeth wedi amcangyfrif pe bai Sizewell C yn mynd yn ei flaen, byddai disgwyl i ddefnyddwyr arbed tua £30 biliwn dros oes y prosiect o'i gymharu â dulliau ariannu eraill. Ar sail punt am bunt, byddai disgwyl canlyniadau tebyg, neu well, ar gyfer prosiectau amrediad llanw.

Bydd angen cymorth gan y llywodraeth, trwy ymgysylltiad polisi ac ariannol, i leihau'r risgiau i brosiectau masnachol cychwynnol a denu cyfalaf preifat. Os bydd prosiect cychwynnol yn llwyddiannus, bydd yn sefydlu hyder buddsoddwyr, gan agor y drws ar gyfer prosiectau amrediad llanw yn y dyfodol ledled y Deyrnas Unedig.

System drydanol yn elwa

Mae prosiectau amrediad llanw yn cynnwys gallu cynhenid i storio ac felly gallant ddarparu trydan carbon isel a chymorth mawr ei angen i system y grid. Yn wahanol i'r ynni adnewyddadwy prif ffrwd, sef ynni gwynt a solar, mae ynni amrediad llanw, er ei fod yn amrywiol, yn rhagweladwy iawn. Byddai prosiectau yn yr Aber yn agos at fannau â galw uchel a, thrwy hynny, yn lleihau hyd llinellau trawsyrru a chost trawsyrru o'i gymharu â dulliau cynhyrchu adnewyddadwy eraill.

Buddsoddi a hyfywedd ariannol

Mae'r model Sylfaen Asedau Rheoleiddiedig yn cyflwyno'r dull ariannu mwyaf effeithiol ar gyfer prosiectau amrediad llanw, gan gynnig cydbwysedd teg rhwng hyder buddsoddwyr a diogelu defnyddwyr. Mae'r model hwn wedi'i gymhwyso'n llwyddiannus i brosiectau seilwaith mawr fel Twnnel Tideway Afon Tafwys, ac

Recommendations

Mae prif argymhellion y Comisiwn wedi'u rhestru isod. Darperir mwy o fanylion yn y prif adroddiad sydd ar gael ar-lein.

01 Dylai llywodraethau gydnabod rôl ynni amrediad llanw yng nghyflenwad trydan y Deyrnas Unedig yn y dyfodol a chynorthwyo ei ddatblygiad fel diwydiant

Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru alinio eu polisiau i gynorthwyo ynni amrediad llanw fel rhan o gyflenwad trydan y Deyrnas Unedig yn y dyfodol, gan ei integreiddio i fframweithiau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer sero net a diogelwch ynni. Byddai Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni Amrediad Llanw yn sefydlu ymhellach gefnogaeth glir o ran polisi, yn cadarnhau ymrwymiad y llywodraeth, yn gwella hyder buddsoddwyr, ac yn galluogi buddsoddiad sector cyhoeddus mewn ymchwil a monitro amgylcheddol. Ochr yn ochr â hyn, dylai NESO adolygu ei Gynllun Ynni Gofodol Strategol i gynnwys potensial amrediad llanw. Y flaenoriaeth ar unwaith yw datblygu strwythur llywodraethu, dull cynllunio gofodol, a strategaeth meithrin gallu, gan gynnwys cyrff seilwaith cenedlaethol allweddol i gynorthwyo datblygiad amrediad llanw hirdymor.

02 Datblygu Prosiect Arddangos Masnachol i ddangos potensial a gwerthuso effeithiau amgylcheddol

Ochr yn ochr â hynny, dylid datblygu morlyn llanw – Prosiect Arddangos Masnachol. Yn ogystal â chynhyrchu swm sylweddol o drydan carbon isel, ei ddiben fyddai deall manteision ynni ac economaidd-gymdeithasol prosiect o'r fath a darparu llwyfan ar gyfer gwerthuso ei effaith amgylcheddol ar raddfa lawn. Rhaid i'r prosiect cychwynnol hwn fod yn fasnachol hyfyw ac yn un y gellir ei ariannu. Dylai

gael ei ddylunio ar y cyd gan beirianwyr ac amgylcheddwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd a gyda chynllun cynhwysfawr ar gyfer lliniaru a gwrthbwysu. Pe bai'n dderbyniol yn fasnachol ac yn amgylcheddol, yna gallai fod yn sail i gyfres o forlynnoedd naill ai yn yr Aber neu o amgylch arfordir y Deyrnas Unedig.

03 Creu cynllun rhanbarthol i alluogi rheoli Aber Afon Hafren yn well

Dylid datblygu cynllun rhanbarthol newydd i alluogi rheoli pob gweithgaredd, heb fod yn gyfyngedig i brosiectau ynni, yn Aber Afon Hafren. Byddai'n cynnwys cynllun gofodol Aber cyfan, gyda strwythur llywodraethu trawsffiniol cryf i sicrhau dehongliad cyson o ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig a Chymru. Byddai'n darparu dull integredig o ymdrin ag ymchwil, cynllunio a rheoli amgylcheddol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, o bosibl drwy Bartneriaeth Aber Afon Hafren, i sicrhau cefnogaeth gan y cyhoedd a diwydiant. Byddai'r math hwn o gynllunio gofodol yn flaengar ac yn galluogi fframwaith gwneud penderfyniadau sy'n ystyried effeithiau ynni, amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol seilwaith mawr a hanfodol bwysig, megis, ond heb fod yn gyfyngedig i forlyn llanw.

04 Datblygu fframwaith ariannu a chyllido i ddatgloi buddsoddiad preifat

Dylai Trysorlys EF ehangu'r defnydd o fframwaith ariannu a chyllido yn seiliedig ar y model Sylfaen Asedau Rheoleiddiedig i gwmpasu prosiectau ynni amrediad llanw, gan ddatgloi potensial ar gyfer cyllid cyhoeddus a phreifat.

05 Mabwysiadu dull datblygu cychwynnol dan arweiniad y sector cyhoeddus – Cyfrwng Cyflawni Prosiect

Dylai Partneriaeth Porth y Gorllewin, gan gydweithio â Llywodraethau'r DU a Chymru, weithio i sefydlu Cyfrwng Cyflawni Prosiect ar gyfer y Prosiect Arddangos Masnachol. Yn cynnwys buddiannau perthnasol y sector cyhoeddus a phreifat, byddai'r cyfrwng hwn yn arwain y datblygiad, yn cynnull rhanddeiliaid perthnasol, yn hyrwyddo cydweithio ac yn ysgogi cynnydd. Byddai hefyd yn ceisio sicrhau arian cyhoeddus i gynorthwyo'r camau datblygu risg uchel ar gyfer prosiectau cynnar, sy'n ymddangos yn annhebygol o ddenu arian preifat. Yna, byddai'n annog sefydliadau cyllid preifat i ymuno â'r cyfnod adeiladu y mae'n ymddangos bod awydd sylweddol ar ei gyfer.

06 Buddsoddi mewn ymchwil a monitro i fynd i'r afael â'r bylchau presennol yn y data a'r dystiolaeth amgylcheddol

Dylai'r sector cyhoeddus fuddsoddi mewn ymchwil a monitro i fynd i'r afael â'r bylchau presennol yn y data a'r dystiolaeth amgylcheddol. Er y byddai'r Prosiect Arddangos Masnachol yn ehangu gwybodaeth am ddatblygiad ynni amrediad llanw yn yr Aber, mae angen gwneud rhagor o waith i ddarparu data angenrheidiol arall.

07 Mabwysiadu dull strategol i gyflawni lliniaru a gwrthbwysu

Dylai'r Cyfrwng Cyflawni Prosiect, gyda chymorth Llywodraethau'r DU a Chymru, weithio gyda chyrff eraill sydd â diddordeb ar ddull strategol o wrthbwysu effeithiau ar gynefinoedd. Dylent asesu dichonoldeb darparu mesurau lliniaru a gwrthbwysu ar gyfer datblygiad amrediad llanw yn Aber Afon Hafren ar y raddfa angenrheidiol. Dylid gwrthbwysu mewn modd strategol DU gyfan, gan sicrhau bod mesurau'n effeithiol, yn gymesur ac yn cyd-fynd â nodau amgylcheddol a pholisi ehangach.



Galwad i Weithredu

Mae'r Comisiwn wedi gwneud ei argymhellion i Bartneriaeth Porth y Gorllewin. Er mwyn i strategaeth ynni amrediad llanw newydd gael ei deddfu'n effeithiol, mae'r argymhellion yn gofyn am benderfyniadau cydlynol gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Dylid eu hategu drwy gamau pellach gan randdeiliaid allweddol eraill sydd â chyfrifoldeb dros gyflawni strategaeth ynni glân y Deyrnas Unedig erbyn 2050 ac am gydlynw gwaith cynllunio amgylcheddol.

Mae Partneriaeth Porth y Gorllewin mewn sefyllfa dda i gymryd rôl arweiniol yn yr ymdrech hon ac i gydlynw ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol. Dylai awdurdodau lleol a rhanbarthol, gan weithio ar y cyd â'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn genedlaethol, ddarparu'r sylfaen angenrheidiol i ddilyn y llwybr strategol a chydlynol hwn.



Severn Estuary
Commission
Comisiwn
Aber Afon Hafren



Western
Gateway Porth y
Gorllewin



I ddilyn cynnydd y Comisiwn,
ewch i'n gwefan:

www.severncommission.co.uk
severn.commission@western-gateway.co.uk